Brîff yn Dangos yr Asesiad Safle ar gyfer y Safle Opsiynol ar gyfer Prosiect Gwyrdd

Mae Prosiect Gwyrdd wedi penodi ymgynghorwyr technegol, Parsons Brinckerhoff, i ystyried y safleoedd posibl yn yr ardal Prosiect Gwyrdd a all fod yn addas ar gyfer datblygu cyfleuster trin gwastraff gweddilliol, i ddarparu opsiwn arall i waredu gwastraff dinesig gweddilliol. Mae'r project yn niwtral o ran technoleg, felly cynhaliwyd yr asesiad gan edrych ar ddatblygu tir ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau technoleg, a esbonnir yn www.prosiectgwyrdd.co.uk

Nodwyd chwe deg chwe safle yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru o fewn yr ardal Prosiect Gwyrdd. Yn dilyn trafodaethau ag adrannau cynllunio a datblygu economaidd ym mhob un o'r awdurdodau, gostyngwyd hyn i bum deg naw safle. Yna roedd y safleoedd hyn yn destun asesiad lefel uchel, er mwyn penderfynu ar restr fer o'r opsiynau â'r potensial gorau ar gyfer datblygu cyfleuster trin gwastraff gweddilliol.

Sefydlwyd cyfres o feini prawf i ymgymryd â'r asesiad hwn, yn seiliedig ar y meini prawf yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Roedd y rhain yn fanwl a chymhleth ond wedi'u crynhoi isod.

- **Statws cynllunio'r tir/safle**
- **Ardal y safle, pa mor agos at fannau poblogaeth**
- **Potensial mynediad, pa mor agos at dai, ystyried yr amgylchedd lleol a'r defnydd tir**
- **Pa mor agos at dirlun cenedlaethol / lleol, treftadaeth a chyrchfannau ecolegol**
- **Cydymffurfio â'r polisi cynllunio.**

Ystyriwyd y meini prawf ychwanegol canlynol hefyd

- **Pa mor agos at gyswllt grid trydanol**
- **Potensial i roi gwres a phŵer i eiddo a busnesau gerllaw**
- **Potensial ar gyfer estyn y safle**
- **Potensial am gyswllt rheilffordd**
- **Perchnogaeth safle.**

Gydol y broses hon, defnyddiwyd polisi a chanllaw cenedlaethol ar gynllunio ar gyfer Rheoli Gwastraff gan ddefnyddio a chyfeirio at gyfleusterau adfer adnoddau .

- *Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru 2002*
- *Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru*

- *Arolwg Tir Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru 07*
- *Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru – Asesiad Effaith ar Iechyd*
- *Mapiau Gwres Diwydiannol Defra, Nodyn Cyngor Technegol Polisi Cynllunio Cymru – TAN (Cymru) 21: Gwastraff, 2001*
- *Data Sgil-Gynhyrchion Gwastraff Asiantaeth yr Amgylchedd*
- *Amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Adolygiad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol*
- *Mapiau a Pholisïau Cynlluniau Datblygu Unedol Perthnasol*
- *Adran Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth Cynulliad Cymru, Fframwaith Gwirio Cynllunio Iechyd, Fersiwn 2 Medi 2008.*

Un o brif bolisïau Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol Cymru yw bod rhaid cymryd yr holl fesurau angenrheidiol i amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd yn erbyn yr effeithiau niweidiol a achosir gan gynhyrchu, casglu, cludo, trin, cadw, adfer a gwaredu Gwastraff.

Gydol y broses hon, roedd deunaw safle yn bodloni'r meini prawf yn llwyddiannus ac yn cael eu hystyried fel posibiliadau addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig, mae chwech o'r rhain yn berchen i'r Cyngor neu Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd dau yng Nghaerffili, saith yng Nghaerdydd, un yn Sir Fynwy, pump yng Nghasnewydd a thri ym Mro Morgannwg.

Yna roedd Swyddogion Technegol o'r Grŵp Llywio Swyddogion yn rhoi'r safleoedd hyn mewn trefn, gan ddefnyddio'r meini prawf 'uchel' 'canolig' ac 'isel' yn dibynnu ar addased ac argaeledd.

- **Uchel:** Posibiliad rhagorol i'w ystyried ymhellach ar y sail bod yr holl feini prawf a manteision ychwanegol yn cael eu bodloni
- **Canolig:** Posibiliad cymedrol i'w ystyried ymhellach, ond â rhai cyfyngiadau oherwydd y manteision ychwanegol
- **Isel:** Ymarferol isel ar gyfer y Prosiect Gwyrdd oherwydd yr ychydig fanteision ychwanegol

Dyma'r safleoedd a ystyriwyd fel rhai 'uchel':

- **Parc Busnes Oakdale, Caerffili**
- **Parc Busnes Capital, Gwynllŵg, Caerdydd**
- **Tir gerllaw'r hen adeilad Acer, Gwynllŵg, Caerdydd**
- **Queensway Meadows East, Casnewydd**
- **Queensway Meadows, Tatton Road, Casnewydd**

Cafodd Parc Busnes Oakdale a'r tir gerllaw'r hen adeilad Acer eu diystyru ar ôl hynny o'r detholiad, gan nad oeddynt ar gael mwyach ac yn cael eu defnyddio ar gyfer cynigion datblygu eraill.

Mae Prosiect Gwyrdd eisiau mynd â safle sy'n berchen i'r cyhoedd ymlaen i'r broses gaffael i gynyddu'r gystadleuaeth yn y farchnad, i ddarparu opsiwn arall i gynigwyr nad ydynt â'r fantais o safle wedi'i sicrhau.

Am y rhesymau hyn, cafodd Parsons Brinckerhoff eu cyfarwyddo gan Prosiect Gwyrdd i asesu'r tri safle sy'n weddill, Parc Busnes Capital yng Nghaerdydd, Queensway Meadows East a Queensway Meadows, Tatton Road mewn rhagor o fanylder, os yn bosibl pa un o'r tri safle sy'n berchen i'r cyhoedd a oedd fwyaf addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig a'r mwyaf tebygol o gael caniatâd cynllunio.

Mae ambell i anfantais i bob un o'r tri safle. Maent yn safleoedd maes glas o ran natur, â dyddodion llanw meddal ac mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd felly efallai bydd cyfyngiadau technegol, amgylcheddol a chynllunio yn gysylltiedig â datblygu unrhyw un o'r tri safle hyn.

Fodd bynnag ystyrir bod y tri safle â'r gallu ffisegol i ddarparu cyfleuster trin gwastraff arfaethedig trwy'r meini prawf cytunedig a ddefnyddir uchod.

Mae'r manteision a'r negyddion posibl sy'n gysylltiedig â'r tri safle hyn wedi'u rhestru isod:

Parc Busnes Capital, Gwynllŵg, Caerdydd

Cadarnhaol

- Yn berchen i'r cyhoedd
- Yn agos at rwydwaith prif ffyrdd
- Potensial i gysylltu â chyfleusterau gwastraff presennol a phosibl
- Agosrwydd i derfynell cludo rheilffordd
- Potensial i wres a phŵer cyfun wasanaethu'r parc busnes gerllaw

Negyddol

- 'Safle maes glas'
- Potensial o risg llifogydd, er yn ôl cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd mae modd rheoli risgiau llifogydd yn yr ardal trwy ddylunio effeithiol
- Byddai amodau daear yn golygu y byddai angen atebion dylunio megis pentyrru h.y. drilio mewn colofnau concrid i sicrhau sylfeini cadarn
- Mae'r safle hwn yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig
- Gerllaw warws dosbarthu bwyd arfaethedig (byddai hyn yn golygu problem canfyddiedig yn hytrach na phroblem go iawn)
- Mae annedd presennol o fewn 250m o'r safle
- Golygfeydd agored i'r safle o ardal breswyl Tredelerch
- Safle wedi'i gyfyngu gan ddatblygiadau presennol. Dim llawer o botensial ar gyfer estyn

Queensway Meadows, Tatton Road, Casnewydd

Cadarnhaol

- Yn berchen i'r cyhoedd
- Yn agos at rwydwaith prif ffyrdd
- Gellid ailagor y ffordd fynediad bresennol
- Potensial i roi gwres a phŵer i wasanaethu'r datblygiad Glan Llyn arfaethedig gerllaw yn hen waith dur Llanwern
- Tu allan i Lefelau Gwent - mae Nash a Goldcliff yn ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Tirlun presennol o ansawdd isel
- Safle mewn ardal fusnes/ddiwydiannol sefydledig
- Mae Tatton Road yn ffordd fynediad bresennol ac mae'r safle yn cynnwys seilwaith defnyddioldeb presennol
- Dim ardal breswyl amgylchynol a all edrych dros y safle.
- Cost isel posibl i gysylltu â'r grid trydanol.

Negyddol

- Safle 'maes glas', er â rhai nodweddion 'tir llwyd'
- Potensial o risg llifogydd, er yn ôl cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd mae modd rheoli risgiau llifogydd yn yr ardal trwy ddylunio effeithiol
- Byddai amodau daear yn golygu y byddai angen atebion dylunio megis pentyrru h.y. drilio mewn colofnau concrid i sicrhau sylfeini cadarn
- Annedd presennol o fewn 250M o ffin y safle - Tatton Farm (ond dan reolaeth LICC)
- Mae Tatton Farm yn adeilad rhestredig Gradd 2
- Uned cynhyrchu bwyd presennol yn yr ardal amgylchynol. Mae hyn eto yn broblem a ganfyddir yn hytrach na phroblem wirioneddol
- Presenoldeb peilonau a llinellau trosglwyddo foltedd uchel a all gyfyngu ôl-troed y safle posibl

Queensway Meadows East, Casnewydd

Cadarnhaol

- Yn berchen i'r cyhoedd
- Yn agos at rwydwaith prif ffyrdd
- Potensial i roi gwres a phŵer i'r datblygiad Glan Llyn arfaethedig yn hen waith dur Llanwern
- Dim datblygiad preswyl amgylchynol y gellid effeithio arno drwy edrych dros y safle
- Safle heb ei gyfyngu gan seilwaith defnyddioldeb presennol

Negyddol

- ‘Safle maes glas’
- Potensial o risg llifogydd, er yn ôl cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd mae modd rheoli risgiau llifogydd yn yr ardal trwy ddylunio effeithiol
- O fewn Lefelau Gwynllŵg: Nash a Goldcliff yn ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Byddai amodau daear yn golygu y byddai angen atebion dylunio megis pentyrru. H.y. drilio mewn colofnau concrid i sicrhau sylfeini cadarn
- Annedd presennol o fewn 250M o ffin y safle (Tatton Farm) ond dan reolaeth LICC
- Mae Tatton Farm yn adeilad rhestredig Gradd 2
- Byddai angen ffordd fynediad newydd

Drwy gymharu’r tri safle hyn, daethpwyd i'r canlyniad y byddai safleoedd Queensway Meadows yn fwy priodol na safle’r Parc Busnes Capital yng Nghaerdydd

Pam?

- Llai o effaith gweledol i breswylwyr yr ardal
- Potensial i roi gwres a phŵer i'r datblygiad Glan Llyn arfaethedig yn yr hen waith dur
- Mae tu allan i ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

O gymharu’r ddau safle yn Queensway Meadows, penderfynwyd mai safle Tatton Road oedd y lleoliad gorau oherwydd cyfyngiadau cynllunio. Mae wedi’i leoli tu allan i’r ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig, gyda seilwaith ffordd a phenderfynwyd y byddai ganddo lai o effaith ar yr amgylchedd lleol na safle Queensway Meadows East.

Dangosodd asesiad technegol o Tatton Road ei bod hi’n bosibl adeiladu'r cyfleuster ar rannau gogleddol neu ddeheuol y safle ond dylid rhoi ystyriaeth bellach i’r cyfyngiadau posibl â busnesau a Tatton Farm mor agos i'r safle.

Bydd angen archwilio safle Tatton Road ymhellach cyn ei gynnig i’r farchnad.

Byddai’r arolygon canlynol yn cefnogi unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol ac Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer y safle hwn ac yn cynnwys:

- **Archwilio amodau daear, trwy archwiliadau ‘tyllau turio'**
- **Arolwg ecolegol**
- **Arolwg cyswllt grid**
- **Astudiaeth gwres**
- **Ymgynghori â'r cwmni dŵr, y Bwrdd Draenio, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.**

Hysbyswyd Prosiect Gwyrdd y byddai'r risg llifogydd yn gyfyngiad sylweddol, ond trwy drafodaethau pellach rhwng Prosiect Gwyrdd ac Amgylchedd yr Asiantaeth penderfynwyd y gellir rheoli risgiau llifogydd yn yr ardal hon yn effeithiol trwy 'ddylunio ystyriol'.

Ni fydd y safle a gyflwynir i'r farchnad yn safle cyfeirio, felly ni fydd rhaid i gynigwyr wneud cynnig ar y safle hwn. Bydd safleoedd preifat yn cael eu cyflwyno gan bartïon â diddordeb ac mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol o nifer o gwmnïau preifat yn cyflwyno ceisiadau cynllunio drwy gynnig atebion technegol gwahanol.

Am y wybodaeth ddiweddaraf am y project, ewch i www.prosiectgwyrdd.co.uk . Gallwch ofyn unrhyw gwestiynau i'r Bwrdd Project yn info@prosiectgwyrdd.co.uk.